Gweithdrefn Caersalem ar gyfer Ymateb i Gamdriniaeth Ar-lein

Caersalem Procedure for Responding to Online Abuse

Cymraeg	English
EGLWYS Y BEDYDDWYR CAERSALEM, CAERNARFON	**CAERSALEM BAPTIST CHURCH, CAERNARFON**
Diben	**Purpose**
Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd pan fydd pryderon yn codi ynghylch camdriniaeth ar-lein, ymddygiad niweidiol ar-lein neu faterion diogelu digidol sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg ac sy'n gysylltiedig â gweinidogaeth Eglwys y Bedyddwyr Caersalem. Dylid darllen y weithdrefn hon ochr yn ochr â Pholisi Diogelu a Pholisi Diogelwch Ar-lein yr eglwys. Mae'r eglwys yn dilyn canllawiau a gyhoeddir gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol a sefydliadau diogelu cydnabyddedig fel yr NSPCC.	This procedure outlines the actions that should be taken when concerns arise regarding online abuse, harmful online behaviour or digital safeguarding issues involving children, young people or adults at risk connected with the ministry of Caersalem Baptist Church. This procedure should be read alongside the Church Safeguarding Policy and Online Safety Policy. The church follows guidance issued by the Interdenominational Safeguarding Panel, and recognised safeguarding organisations such as the NSPCC.
Beth yw Camdriniaeth Ar-lein?	**What is Online Abuse?**
Gall camdriniaeth ar-lein gynnwys:	Online abuse may include:
Seiberfwlio	Cyberbullying
aflonyddu ar-lein	online harassment
paratoi person at gamdriniaeth	grooming
camfanteisio rhywiol	sexual exploitation
ymddygiad gorfodol neu reolaethol	coercive or controlling behaviour
rhannu delweddau anweddus	sharing indecent images
bod yn agored i gynnwys niweidiol	exposure to harmful content
lleferydd casineb	hate speech
twyll ar-lein	online fraud
negeseuon bygythiol	threatening messages
camddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau negeseua	misuse of social media or messaging platforms
Ymateb ar Unwaith	**Immediate Response**
Gwrandewch yn ofalus, cymerwch bryderon o ddifrif, arhoswch yn ddigynnwrf, rhowch sicrwydd i'r person, cofnodwch yr hyn a adroddwyd, cadwch dystiolaeth lle bo modd a rhowch wybod am bryderon yn brydlon. Peidiwch ag addo cyfrinachedd, ymchwilio i'r mater eich hun, cysylltu â'r sawl yr honnir iddo gyflawni'r weithred, dileu tystiolaeth na rhannu gwybodaeth yn ddiangen.	Listen carefully, take concerns seriously, stay calm, reassure the person, record what has been reported, preserve evidence where possible and report concerns promptly. Do not promise confidentiality, investigate the matter yourself, contact an alleged perpetrator, delete evidence or share information unnecessarily.
Cadw Tystiolaeth	**Preserving Evidence**

Cymraeg	English
Tynnwch luniau sgrin lle bo'n briodol, cadwch negeseuon neu e-byst, cofnodwch ddyddiadau, amseroedd ac enwau defnyddwyr, a chadwch ffeiliau perthnasol. Ni ddylid byth gopïo, lawrlwytho na rhannu delweddau anghyfreithlon; rhaid cyfeirio'r mater ar unwaith at yr heddlu a'r awdurdodau diogelu.	Take screenshots where appropriate, save messages or emails, record dates, times and usernames, and retain relevant files. Illegal images should never be copied, downloaded or shared and must be referred immediately to police and safeguarding authorities.
Rhoi Gwybod am y Pryder	**Reporting the Concern**
Dylid rhoi gwybod am bob pryder sy'n ymwneud â chamdriniaeth ar-lein i'r Ymddiriedolwr Diogelu ar unwaith. Dylai'r Ymddiriedolwr Diogelu gofnodi'r pryder, asesu'r risg a cheisio cyngor gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol lle bo angen ac yn briodol.	All concerns relating to online abuse should be reported immediately to the Safeguarding Trustee. The Safeguarding Trustee should record the concern, assess risk and seek advice from the Interdenominational Safeguarding Panel where necessary and appropriate.
Pryd i Gysylltu â'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol	**When to Contact the Police or Social Services**
Dylid atgyfeirio ar unwaith pan all plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg fod yn dioddef niwed; pan amheuir paratoi at gamdriniaeth neu gamfanteisio rhywiol; pan all gweithgarwch troseddol fod wedi digwydd; pan fo delweddau anghyfreithlon dan sylw; neu pan fo risg uniongyrchol i fywyd neu ddiogelwch. Mewn argyfwng, ffoniwch 999.	Immediate referral should be made where a child or adult at risk may be suffering harm, grooming or sexual exploitation is suspected, criminal activity may have occurred, illegal images are involved or there is immediate risk to life or safety. In emergencies call 999.
Pryderon sy'n Ymwneud â Gweithwyr neu Wirfoddolwyr yr Eglwys	**Concerns Involving Church Workers or Volunteers**
Pan fo honiad yn ymwneud â gweithiwr, gwirfoddolwr, ymddiriedolwr neu arweinydd yr eglwys, rhaid rhoi gwybod am y mater ar unwaith i'r Ymddiriedolwr Diogelu a'r Panel Diogelu Rhyngenwadol. Dylid ceisio cyngor gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol cyn gynted â phosibl.	Where an allegation concerns a church worker, volunteer, trustee or leader, the matter must be reported immediately to the Safeguarding Trustee and the Interdenominational Safeguarding Panel. Advice should be sought from the Interdenominational Safeguarding Panel at the earliest opportunity.
Pryderon sy'n Ymwneud â'r Ymddiriedolwr Diogelu neu'r Gweinidog	**Concerns Involving the Safeguarding Trustee or Minister**
Dylid rhoi gwybod am y pryder i ymddiriedolwr arall neu swyddog yr eglwys, a cheisio cyngor yn uniongyrchol gan y Panel Diogelu Rhyngenwadol.	The concern should be reported to another trustee or church officer and advice sought directly from the Interdenominational Safeguarding Panel.
Cefnogaeth i Ddioddefwyr ac Eraill yr Effeithiwyd Arnynt	**Support for Victims and Those Affected**
Bydd yr eglwys yn ymdrin â datgeliadau o ddifrif ac yn sensitif, yn cynnig cefnogaeth fugeiliol lle bo'n briodol ac yn cydweithredu'n llawn ag asiantaethau diogelu ac ymchwiliadau.	The church will treat disclosures seriously and sensitively, offer pastoral support where appropriate and cooperate fully with safeguarding agencies and investigations.
Cofnodi a Storio	**Recording and Storage**
Rhaid cofnodi pob pryder diogelu sy'n ymwneud â chamdriniaeth ar-lein yn ysgrifenedig, ei ddyddio, ei storio'n ddiogel a'i gadw yn unol â gofynion diogelu a diogelu data.	All safeguarding concerns relating to online abuse must be recorded in writing, dated, stored securely and retained in accordance with safeguarding and data protection requirements.

Cymraeg	English
Cyngor a Chefnogaeth Allanol	**External Advice and Support**
Gellir ceisio cyngor gan y Panel Diogelu Cydenwadol, Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Diogelu Oedolion yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu, fel y bo'n briodol.	Advice may be sought from the Interdenominational Safeguarding Panel, LA Children's Services, LA Adult Safeguarding Services and the Police as appropriate.
Adolygu	**Review**
Caiff y weithdrefn hon ei hadolygu bob blwyddyn ochr yn ochr â Pholisi Diogelu a Pholisi Diogelwch Ar-lein yr eglwys.	This procedure will be reviewed annually alongside the Church Safeguarding Policy and Online Safety Policy.
Mabwysiadwyd gan: Dîm Arwain Eglwys y Bedyddwyr Caersalem ar 9 Medi 2026	**Adopted by: Caersalem Baptist Church Leadership Team on 9 September, 2026**